

GAN FOD yr Eisteddfod yn Llanrwst eleni, tybiais y byddai ysgrif ar y gyfrol sy'n dwyn y teitl gogleisiol *Glanduluniana* o ddiwedd i ddarlennwyr Y Casglwr.

Cyrol ydyw o gyfansoddiadau buddugol a beirniadaethau cyfarfod llenyddol a gynhaliwyd yng nghapel y Methodistiaid Calfinaidd yn Nhal-y-bont, ger Conwy, yn 1861 ac fe gafodd ei henw o'r llyn sydd uwchlaw'r pentref. Dyma'r teitl llawn:

Glanduluniana sef cyfansoddiadau buddugol a beirniadaethau cyfarfod llenyddol Tal y bont (ger Conwy) a'r Cymydogaeithau, a gynhaliwyd yn Nghapel y Trefnyddion Calfinaidd y 24ain a'r 25ain o Rhagfyr, 1861 yn nghyda chrynodeb o Ddarlith a draddodwyd ar Feirdd, Barddoniaeth, a Llenyddiaeth gan Iorwerth h Glan Aled, Bethesda, Argraffwyd Dros y Pwyllgor, gan R. Jones.

Nid oes dyddiad ar yr wyneb ddalen, ond dyddiwyd y 'Rhagymadrodd' gan R.W. Pritchard, 'Bron'ryri' (a gasglodd y gwaith ynghyd) ar Mai 30, 1862.

Aeth y gyfrol yn hynod brin erbyn hyn, a dywed diweddar John Owen, Tal-y-bont yn ei gyfrol ddiddorol *Hanes Achos y Methodistiaid Calfinaidd yn Nhal-y-bont*, gan gynnwys y canghennau *Lhwynywaew* a *Dolgarrog* . . . Bala, 1935 fod ychydig gopïau ohoni o hyd ar achlysydd yr ardal.

Dywedir yn y 'Rhagymadrodd' mai bwriad y pwyllgor oedd mesurhin talentau'r bobl ifanc, ac iddynt benderfynu cynnal nifer o gyfarfodydd llenyddol yn yr ardal i'r diben hwnnw. Ymddengys fod dau neu dri chyfarfod wedi bod cyn iddynt benderfynu cyhoeddi cynnyrch cyfarfod 1861.

Y PETH cyntaf yn y gyfrol yw talfyriad o ddarlith Iorwerth Glan Aled. Brodor o Lansannan oedd Edward Roberts ("Iorwerth Glan Aled") (1819-1867). Yr oedd yn fab i Peter Roberts, gweinidog amlwg gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn y pentref hwnnw, ond troes at y Bedyddwyr a bu'n weinidog llywyddiannus iawn am gyfnod yn Ninbych, Lerpwl ac yn arbennig yn Rhymni.

Y ddiod oedd ei drangwydd, fe'i hataliwyd rhag pregethu rai troeon o'i hachos, a threuliodd fflynyddoedd olaf ei oes yn cadw tŷ bwyta yn y Rhyl, yn pregethu pan gâi wneud hynny gan ei enwad ac yn llenyddia darlithio.

Ef oedd un o brif hyrwyddwyr yr Arwrgerdd, ac yr oedd yn anterth ei boblogrwydd ar y pryd gan iddo ddyfod yn ail-orau ar yr Arwrgerdd yn Eisteddfod Dinbych 1860.

Yr oedd yn brysur ddiwedd

GLANDULUNIANA

DERWYN JONES a'r teitl gogleisiol

1861 a dechrau 1862 yn ymosod yn *Yr Herald Cymraeg* ar Gweirydd ap Rhys, a oedd yn ceisio achub cam ei fab, Golyddan, cystadluwydd aflwyddiannus amlycaf y gystadlenaueth chwerau honno.

Yr oedd Iorwerth hefyd ar fin cyhoeddi cyfrol sylweddol o feirniadaeth lenyddol dan y teitl *Y Llenor Diwylliedig* a ymddangosodd yn 1862.

Ar ôl rhagymadroddi yn ei anerchiad yn Nhal-y-bont â Iorwerth rhagddo i ymosod ar feirdd y gynghanedd, a beirdd yr eisteddfod yn gyffredinol, oberwydd eu bod yn rhoi gormod o bris ar gystadlu, ac â ymlaen i bwysleisio pwysigrwydd '*aihylyth naturiol*' a hoffter o natur, neu 'amian' chwedd yntau, fel anheggorion y gwir fardd.

Adleisio beirniad llenyddol Lloegr, megis Edward Young, (awdur 'Night Thoughts'), yn ei lyfr *Conjectures on Original Composition* yn y ganrif flaenorol yr oedd Iorwerth, fel Islwyn yn y llinellau adnabyddus i'r 'dragwyddol heol'.

Cyfnodau diffaith meddai, a gaed pan wnybyddid natur megis y cyfnod rhwng marwolaeth Milton a chyfnodiad Thomson (awdur 'The Seasons') yn Lloegr, a'r cyfnod rhwng Dafydd ap Gwilym a Dewi Wyn yng Nghymru.

Cymheric y beirdd Cymraeg i 'musical boxes' ond 'i greu ysbryd addoliad iŵn a mawreddog yn encidiau dynion, mae angen amom am Organau Ifori i chwarae yn nghorau mynachlogydd eangddwys athrylith, nes eangu syniadau dynion i'r anfarwoldeb all herio dinistr amser.' Y cyfrwng i wneud hynny, wrth gwrs, yw'r arwrgerdd.

"Mae amom ni yng Nghymru, angen Arwrgerddi, sydd yn hawlio hanes oes dyn i'w cyfansoddi . . . rhaid i ni gael dynion a allant anturio tu fewn i'r llen, a dâl golygfeydd heb lewygu . . . sefyll wyneb yn wyneb ag ysbrydion . . . yna bydd gobaith genym am y cyfansoddiadau hynny, ag ydynt deilwng o lawryf anfarwoldeb i'w haddurno."

Byddai'n ddiddorol gwybod beth oedd ymateb gweision ffermydd Tal-y-bont a'r cylich, yn y sesi cefn, i hyn i gyd.

BEIRNIAID y traethodau a'r farddoniaeth oedd y Parch John Evans ('I.D. Ffraid'), y Parch Edward Stephen ('Tanymarian') a'r Parch John Williams,

gweinidog cyntaf yr eglwys.

Yr oedd ef, gyda llaw, yn daid i'r llenor a'r bardd Alun Llywelyn-Williams. Deua 'I.D. Ffraid' o Lansantffraid, Glan Conwy, gerllaw; llenor toreithiog ac un a ddaeth yn ddylanwadol iawn maes o law gyda'i gyfieithiad o 'Paradise Lost' Milton, dan y teitl 'Coll Gwynfa'.

Testun y prif draethawd oedd 'Hynafiaethau Pen y Gaer yn nghyd a hynafiaethau y golygfeydd sydd i'w canfod oddi arni'. Y beirniad oedd I.D. Ffraid a'r buddugol oedd 'Carnfaldwyn' a oedd yn gurad Eglwys Caerhun ar y pryd. Yr ail-orau oedd David Williams, Pandy Ucha, Dolgarrog.

Dyma restr o'r traethodau eraill: 'Bywyd Elias y Proffwyd,' Beirniad: Tanymarian; Buddugol: David Williams, Pandy Ucha, Dolgarrog; 'Gwerth Crefydd yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw,' Beirniad: I.D. Ffraid; Buddugol: Robert Hughes, Pen bryn brwynog.

'Y niwed o fyned i ffeiriau heb neges,' Beirniad: y Parch John Williams; Buddugol: Thomas Roberts, Onnen Ebryd, Llanbedr y Cennin.

Daeth ef yn adnabyddus yn ddiweddarach fel pregethwr amlwg gyda'r Annibynwyr ac fe'i hadnabyddid fel y Parch Thomas Roberts, yr Wyddgrug. Yr oedd 'Ffair Llanbad' yn nodedig am ei hymladfeydd.

Dyma'r cystadluethau barddoniaeth:

Pryddest ar 'Afon Conwy', Beirniad I.D. Ffraid; Buddugol: W.J. Roberts ('Gwilym Cowlyd') a fynodd roi'r teitl 'Afon Cynwy' i'w gyfansoddiad ac ychwanegu 'Dau Englyn i Afon Gynwy', gyda threiglaid y tro hwn. Yr ail-orau oedd 'Carnfaldwyn, curad Caerhun, a theitl gwahanol eto i'w gerdd 'Canwy ar Ddull Cân Serch', gyda nodiadau helaeth, sydd, fel y digwydd ar achlysuron felly, yn llawer niwy diddorol na'r gerdd ei hun, gan nad beth am eu cywirdeb.

WYTH pennill wyth llinell sydd gan Gwilym Cowlyd ac fe'u hailgyhoeddwyd a'r dau englyn yn ei gyfrol *Marmoron* (1868), ynghyd â 'phryddest hanesiol' feithach, wedi ei phlastro â nodiadau godre tra diddorol yn null 'Carnfaldwyn'.

Cafwyd 'Anerchiad Mewn Podwar o Englynion ar Eneidgaeth Crist' gydag I.D. Ffraid yn feirniad, ac er bod gwobrwyo ni chyhoeddwyd yr englynion,

I.D. Ffraid hefyd oedd beirniad 'Dau Englyn i Gapel Newydd Tal y Bont', a'r buddugol oedd William Owen, ('Gwilym Llugwy'). Adargraffodd John Owen yr englynion yn ei gyfrol ar hanes yr achos yn Nhal-y-bont. Dyma hwy:

Tŷ hwylus, hyfryd helaeth - i Seion

Y groesawus famaeth;

Yma dyger cymdogaeith

Yn fyw lu am nefol laeth.

O! bydded yn dra buddiawl - yn hir ar

Fron Eryri swynawl

I'r Iesu yn arosawl

Deulu mwyn i dalu mawl.

Cyfeilyb yw ansawdd gweddill barddoniaeth y gyfrol.

Y MAE'R traethodau hanes a'r nodiadau godre i' bryddest 'Carnfaldwyn' yn gloddio o esboniadau anhygoel ar enwau lleoedd.

Er enghraifft, yn nhrathawd 'Gwion Bach' sef David Williams, dywedir i Ddolgarrog gael yr enw o Garrog Ynnyr, ac i'r clogwyn uwchlaw gael ei enwi'n Glogwyn Ynnyr ac yn Glogwyn Inco yn ddiweddarach.

Ni wyddys, meddir, ai flurf hanner Seisnig ar Ynnyr yw Inco, neu i'r enw gael ei roi ar y tŷ fferm ar ben yr allt oberwydd i Inigo Jones, y pensaer, ymgyddio ynddo yn ystod y Rhyfel Cartref!

Troed y chwilyfyddig i'r hyn sydd gan *Geiriadur Prifysgol Cymru* i'w ddweud ar y gair 'carrog' ac fe wél grybwyll y chwedl am ladd 'Karrog', sef rhyw fath o fwystfil gan un o'r enw y Bach ap Karwyd yng nghyfliniau Eglwys-bach.

Ceir fersiwn o'r chwedl honno gan David Williams yn ei draethawd. Dywedir fod y 'carrog' yn arfer hedfan o Ddolgarrog i Fryn Carrog uwchlaw Eglwys-bach.

Breuddwyddodd gŵr o'r ardal fod y 'carrog' wedi ei fraith ac yr oedd brathiad y 'carrog' yn anghwael. Un diwrnod aeth yr ardalwyr i hela'r 'carrog', ac yn gall iawn, penderfynodd y gŵr aros yn ei wely, rhag ofn.

Ar ôl deall, fodd bynnag, fod y 'carrog' wedi ei ladd, rhododd y gŵr allan i'w weld a rheos sic i'r bwystfil yn ei safn nes yr aeth dannedd y bwystfil drwy ei esgid, a'r canlyniad anochel oedd iddo syrthio'n farw yn y fan a gwireddu'r breuddwyd.

Os gwn i faint o blant Dyffryn Conwy hoddliw sy'n gyfarwydd â'r chwedl hon, a rhai tebyg iddi, a gofnodwyd yn y gyfrol ddiddorol hon?

Gwened a fynnw o uch ei chynnwyr amaturaid, oni bai am frwdfrydedd y rhai a'i cynhyrchedd, a llawer o rai tebyg iddi ledled Cymru yn y ganrif o'r blaen, ni buasai Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst eleni.